| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH 2011** |
| **TEITL** | **STRATEGAETH BUDDSODDI** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Cynhaliwyd cyfarfod chwarterol y Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 15 Chwefror 2011 yn Llundain.

## 2. PARTNERS GROUP

**2.1** Derbyniwyd cyflwyniad gan Partners Group ar berfformiad y buddsoddiadau ecwiti preifat hyd yma.

**2.2** Cyflwynwyd papur ar ymrwymiadau i'r rhaglen ecwiti preifat yn y dyfodol gan Paul Potter o Hymans Robertson. Dosbarthwyd y papur i aelodau ym mis Chwefror gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod y Panel Buddsoddi.

**2.3** Dyraniad y Gronfa Bensiwn yw 5% ar gyfer Ecwiti Preifat ac nid yw'r buddsoddiadau wedi cyrraedd y canran eto.

**2.4** Er mwyn cwrdd â strategaeth buddsoddi'r Gronfa mae angen ymrwymo arian cyson uwch cynlluniedig hyd at gyfanswm o 15miliwn Ewro (oddeutu £12.6m) a $7miliwn (oddeutu £4.4m). Oddeutu £17m bydd cyfanswm yr ymrwymiad.

**2.5** Barn y Panel Buddsoddi oedd bod angen gwneud hyn.

**2.6** Mae angen cadarnhad gan y Pwyllgor hwn er mwyn symud ymlaen a gwneud yr ymrwymiadau.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor cadarnhau'r dyraniad yn unol â barn y Panel Buddsoddi.